

# 4 taith gerdded LLANFAIRFECHAN 4 walks

**ehangwch eich gorwelion…**
**broaden your horizons…**





### Croeso i Lanfairfechan ble mae'r mynyddoedd yn cyrraedd y môr.

Dyma 4 taith wahanol i chi grwydro'r pentref a'r cefn gwlad o'i amgylch.

- Mae pob taith yn dechrau o groesffordd y pentref
- Mae posib dilyn pob taith ar fap Explorer OL17
- Darllenwch y Cod Cefn Gwlad yng nghefn y llyfryn hwn wrth gynllunio eich taith
- Mae lluniaeth i'w gael mewn siopau, bwytai a thafarnau lleol

***Mae Eglwys Blwyf y Santes Fair, ar allt Pen-y-Bryn, yn sefyll ar safle lle credir i eglwys fod yn sefyll ers dros 1000 o flynyddoedd. Mae tystiolaeth ddogfennol fod eglwys ar y safle hon ym 1253.***

**Am ragor o wybodaeth**
www.llanfairfechan.org.uk

### Welcome to Llanfairfechan where the mountains meet the coast.

Here are 4 different walks for you to explore the village and surrounding countryside.

- All walks start from the village crossroads
- All routes can be followed using Explorer OL17
- Please read the Countryside Code at the back of this booklet whilst planning your walk
- Refreshments are available in local shops, cafes and pubs

***"Llanfairfechan" means "Church of St. Mary the Lesser". The parish church of St. Mary's stands on Pen-y-Bryn hill. It is believed a church has stood on this site for over 1000 years. There is documentary evidence that a church stood at this spot in 1253.***

**For more information**
www.llanfairfechan.org.uk

### Gwybodaeth Teithiau Cerdded

**Taith 1: Glan y Môr Elias**
5.4 cilomedr / 3.3 milltir
Fflat, ar hyd yr arfordir

**Taith 2: Tyddyn Drycin**
4 cilomedr / 2.5 milltir
Rhai elltydd, Coetir, caeau

**Taith 3: O gwmpas y Pentref** 3.6 cilomedr / 2.2 milltir
Rhai elltydd, palmentydd, lonydd o gwmpas y pentref

**Taith 4: Garreg Fawr**
5 cilomedr / 3.1 milltir
Dringo i 1194tr, caeau a thir mynediad agored

### Walks Information

**Walk 1: Glan y Mor Elias**
5.4 kilometres / 3.3 miles
Flat, coastal

**Walk 2: Tyddyn Drycin**
4 kilometres / 2.5 miles
Some gradients, woodland, fields

**Walk 3: Around the Village**
3.6 kilometres / 2.2 miles
Some gradients, pavements, village lanes

**Walk 4: Garreg Fawr**
5 kilometres / 3.1 miles
Climb to 1194ft, fields and open access land





***Dilynwch Y Côd Cefn Gwlad os gwelwch yn dda***
Parchwch • Diogelwch • Mwynhewch.

***Please follow The Countryside Code***
Respect • Protect • Enjoy






## Sut ydw i'n mynd yno?

**Efo trên:**
Mae gorsaf yn Llanfairfechan.
**08457 484950**
**www.nationalrail.co.uk**

**Efo bws:**
Traveline Cymru
**0871 200 22 33**
**www.travelinecymru.info**

**Efo Car:**
Dilynwch yr A55 i gyffordd 14 neu 15 i Lanfairfechan. Dilynwch y brif ffordd i'r groesffordd a'r goleuadau traffig. Trowch i lawr Station Road ac i faes parcio ar yr ochr dde.

**Gwybodaeth i Ymwelwyr:**
**01492 577 566**
**conwytic@conwy.gov.uk**

## Rhagor o deithiau cerdded yng Nghonwy

www.conwy.gov.uk/cefngwlad
cg.cs@conwy.gov.uk
Gwasanaeth Cefn Gwlad Conwy: 01492 575200/575290

## Teithiau Cerdded eraill yn ardal Llanfairfechan:

- Taith Uwchdir Llanfairfechan
- Llwybr y Gogledd
- Llwybr yr Arfordir
- Gwarchodfa Natur Leol Nant y Coed
- Gwarchodfeydd Natur Arfordirol

## How do I get there?

**By train:**
There is a stop at Llanfairfechan.
**08457 484950**
**www.nationalrail.co.uk**

**By bus:**
Traveline Cymru
**0871 200 22 33**
**www.travelinecymru.info**

**By Car:**
Follow the A55 to junction 14 or 15 for Llanfairfechan. Follow the main road to the crossroads with traffic lights. Take the turning down Station Road to a carpark on your right hand side.

**Tourist Information:**
**01492 577 566**
**conwytic@conwy.gov.uk**

## More walks in Conwy

www.conwy.gov.uk/countryside
cg.cs@conwy.gov.uk
Conwy Countryside Service: 01492 575200/575290

## Other walks in the Llanfairfechan area:

- Llanfairfechan Upland Walk
- North Wales Path
- Wales Coast Path
- Nant y Coed Local Nature Reserve
- Coastal Nature Reserves

Rhoddir trwydded ddirymiadwy nad yw'n gyfyngedig, heb freindal, i chi weld y Data Trwyddedig ar gyfer defnydd anfasnachol yn unig, o'r cyfnod y bydd ar gael gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy;

Ni chewch gopïo, is-drwyddedu, dosbarthu, gwerthu neu fel arall drefnu bod y Data Trwyddedig ar gael mewn unrhyw ffurf i drydydd partïon; a

Neilltuir hawliau trydydd parti i orfodi telerau'r drwydded hon i'r Arolwg Ordnans.

*You are granted a non-exclusive, royalty free, revocable licence solely to view the Licensed Data for non-commercial purposes for the period during which Conwy County Borough Council makes it available;*

*You are not permitted to copy, sub-license, distribute, sell or otherwise make available the Licensed Data to third parties in any form; and*

*Third party rights to enforce the terms of this licence shall be reserved to Ordnance Survey.*





CROESO I GERDDWYR · WALKERS ARE WELCOME

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Côd Cefn Gwlad
Countryside Code










## **Llwybr 1:** Gwarchodfa Natur Leol Glan y Môr Elias



**Tirwedd:**
llwybr arfordirol gwastad
**Pellter:**
5.4 cilomedr / 3.3 milltir
**Amser:**
tua 1 awr
**Llwybrau:**
palmentydd, promenâd tarmac, llwybrau glaswellt. Yn addas ar gyfer cadeiriau olwyn, ond bydd angen goriad radar arnoch
**Lluniaeth:**
mae'r daith gerdded yn mynd heibio caffis a siopau

O'r groesffordd ewch i lawr Station Road am 0.7 cilomedr / 0.4 milltir tua'r promenâd. Wrth i'r ffordd wyro i'r dde, ewch yn eich blaen i groesi'r maes parcio tua lan y môr/y promenâd. Trowch i'r chwith, ewch dros y bont i ddilyn llwybr y promenâd / glan y môr am 0.9 cilomedr / 0.5 milltir at Warchodfa Natur Leol Glan y Môr Elias. Yma gallwch ddilyn llwybr cylchol o amgylch y warchodfa neu yng nghornel chwith bellaf y warchodfa gallwch fynd yn eich blaen i ddarganfod y cuddfannau gwylio adar ym Morfa Madryn. Ewch yn ôl ar hyd yr un llwybr i ddychwelyd at ddechrau'r daith.

**O ddiddordeb:**
mae'r morfa heli yng Nglan y Môr Elias a Morfa Madryn yn lle gwych i wylio adar.
Golygfeydd dros Ynys Môn, y Gogarth a mynyddoedd y Carneddau.

I gael taflen Gwarchodfeydd Natur Arfordirol gweler y manylion ar gefn y daflen hon.





## **Route 1:** Glan y Môr Elias, Local Nature Reserve



**Terrain:**
level coastal path
**Distance:**
5.4 kilometres / 3.3 miles
**Time:**
approx 1 hour
**Paths:**
pavements, tarmac promenade, grass paths.
Suitable for wheelchairs, but a radar key is required
**Refreshments:**
the walk takes you past cafes and shops

From the crossroads head down Station Road for 0.7 kilometres / 0.4 miles towards the promenade. As the road veers to the right, continue ahead to cross the car park to the seafront / promenade. Turn left, go over the bridge to follow the promenade / seafront path for 0.9 kilometres / 0.5 miles to Glan y Mor Elias Local Nature Reserve. Here you can follow a circular route around the reserve or at the far left corner of the reserve you can continue ahead to discover the bird hides at Morfa Madryn. Retrace your footsteps to return to the start of the walk.

**Points of interest:**
the saltmarsh at Glan y Môr Elias and Morfa Madryn is a great place to watch birds.
Views over Anglesey, the Great Orme and Carneddau mountains.

For a Coastal Nature Reserves leaflet see details on back of leaflet.








## **Llwybr 2:** Tyddyn Drycin

**Tirwedd:**
ffyrdd trefol, rhai dringfeydd a disgynfeydd cymedrol
**Pellter:**
4 cilomedr / 2.5 milltir
**Amser:**
tua 1 awr
**Llwybrau:**
ffyrdd 'B' a palmentydd, coetir a llwybrau glaswellt

Gan ddechrau wrth y groesffordd, cerddwch i fyny Village Road a chymrwch yr ail ffordd ar y chwith, Park Road. Dilynwch Park Road i'r chwith a pharhau yn eich blaen i fynd trwy giât (ffordd breifat wedi'i nodi arni). Dilynwch y trac ar y dde trwy Barc Penmaen.

Wrth i chi adael y Parc trwy giât dilynwch y lôn o'ch blaen. Fel mae'r lôn yn troi i'r chwith cymrwch y trac ar y dde tuag at Drws y Coed. Cymrwch y troad cyntaf ar y dde o'r llwybr i fynd drwy giât mochyn i'r coetir - Tyddyn Drycin.

Ewch yn eich blaen i fyny'r bryn ac wrth y cyfeirbwynt trowch i'r dde. Wrth y cyfeirbwynt nesaf, trowch i'r dde ac i fyny'r bryn (efallai yr hoffech fynd yn syth ymlaen i'r golygfan ac edrych o gwmpas Tyddyn Drycin) a thrwy giât mochyn.

Ewch yn eich blaen trwy giât heibio Henar ar eich ochr dde ac at giât fochyn yn y gornel top. Ewch i mewn i'r cae gan ddilyn yr ochr chwith i fynd trwy fwlch yng nghornel y cae. Yma ewch yn syth i fyny'r cae tuag at yr adeiladau. Ewch trwy giât (gyda'r adeiladau ar eich ochr chwith) i ddilyn trac trwy Tan y Graig. Ewch ar hyd y trac hwn at giât a pheilon. Trowch i'r dde i lawr llwybr cul gyda wal ar y naill ochr.



Ewch yn eich blaen ar hyd ffin yr ochr dde i fynd drwy giât mochyn. Dilynwch y ffin ar y chwith at giât mochyn a chadwch i'r chwith ar drac drwy Fferm Tan y Geulan i ymuno â Mount Road. Dilynwch y ffordd yn ôl i ganol Llanfairfechan.

## **Route 2:** Tyddyn Drycin

**Terrain:**
town roads, some moderate and steep ascents and descents
**Distance:**
4 kilometres / 2.5 miles
**Time:**
approx 1 hour
**Paths:**
B roads and pavements, woodland and grassland paths

Starting at the crossroads walk up Village Road to take the second road on your left, Park Road. Follow Park Road around to the left and continue ahead to go through a gate (signed private road). Follow the right hand track through Penmaen Park.

As you leave the park through a gate follow the lane ahead. As the lane turns down to the left take the unmarked track on your right towards Drws y Coed. Take the first footpath turning on your right to go through a kissing gate into the woodland - Tyddyn Drycin.

Continue uphill and at a waymarker post turn right. At the next waymarker post continue to the right and uphill (you may wish to go straight on to the viewpoint and look around Tyddyn Drycin) and go through a kissing gate.

Continue ahead through a gate, past Henar on your right and to a kissing gate in the top corner. Enter the field and follow the left hand boundary to go through a gap in the field corner. At this point head straight up the field towards the outbuildings. Go through a gate (with the outbuildings to your left) to pick up the track through Tan y Graig. Continue along this track to a gate and pylon. Turn right down a narrow path with a wall each side.



Continue along the right hand boundary to go through a kissing gate. Follow the left hand boundary to a kissing gate and keep left on a track through Tan y Geulan Farm to join Mount Road. Follow the road back to the centre of Llanfairfechan.




## Llwybr 3:
O Amgylch y Pentref

**Tirwedd:**
trefol, rhannol drefol a Gwarchodfa Natur Leol. Esgyniad a disgyniad graddol

**Pellter:**
3.6 cilomedr / 2.2 milltir

**Amser:**
tua 1 awr

**Llwybrau:**
palmentydd, lonydd ag wyneb

**Lluniaeth:**
mae'r daith gerdded yn mynd heibio siopau, caffis a thafarnau lleol

O'r man cychwyn ar y groesffordd ewch i fyny Village Road heibio'r prif ardal siopa a'r ysgol ar y dde. Ar gyffordd trowch i'r chwith i Bryn Road sy'n arwain at Valley Road. Ewch yn eich blaen ar hyd Valley Road am 1.1 cilomedr / 0.7 milltir. Yn y fan lle mae Valley Road yn troi i'r dde ewch yn eich blaen i Newry Drive nes eich bod yn cyrraedd mynedfa Gwarchodfa Natur Leol Nant y Coed.

**O ddiddordeb:**
Efallai buasech yn dymuno dilyn y llwybr i mewn i Warchodfa Natur Leol Nant y Coed, cael cinio yn un o'r safleoedd picnic a darganfod y coetir yma lle mae Dyfrgwn wedi cael eu gweld.

Dilynwch eich ôl troed yn ôl ar hyd Newry Drive a rhan o Valley Road am 0.7 cilomedr / 0.4 milltir. Yn syth ar ôl mynd heibio i lecyn gwyrdd a maes parcio ar y chwith trowch i'r chwith i ddilyn Nant y Felin / Mill Road am 0.8 cilomedr / 0.5 milltir. Ar gyffordd T gyda Pen y Bryn Road, trowch i'r dde; ewch dros y bont i droi i'r chwith i Village Road i ddilyn eich ôl troed at gychwyn y daith gerdded.





## Route 3:
Around the Village

**Terrain:**
urban, semi urban and Local Nature Reserve. Gradual ascent and descent

**Distance:**
3.6 kilometres / 2.2 miles

**Time:**
approx 1 hour

**Paths:**
pavements, surfaced lanes

**Refreshments:**
the walk takes you past local shops, cafes and pubs

From the starting point at the crossroads head up Village Road past the main shopping area and the school on your right. At a junction veer left onto Bryn Road leading to Valley Road. Continue along Valley Road for 1.1 kilometres / 0.7 miles. As Valley Road veers to the right continue ahead onto Newry Drive until you reach the entrance to Nant y Coed Local Nature Reserve.

**Points of interest:**
You may wish to follow the footpath into Nant y Coed Local Nature Reserve, have lunch at one of the picnic benches and discover this woodland where Otters have been spotted.

Retrace your steps along Newry Drive and part of Valley Road for 0.7 kilometres / 0.4 miles. Just after a green space and car parking area on your left turn left to follow Nant y Felin / Mill Road for 0.8 kilometres / 0.5 miles. At a T junction with Pen y Bryn Road, turn right; go over the bridge to turn left onto Village Road to retrace your steps to the start of the walk.






## **Llwybr 4:** Garreg Fawr

**Tirwedd:**
ffyrdd trefol, rhai dringfeydd serth i 364m / 1194' a disgyniadau
**Pellter:**
tua 5 cilomedr / 3.1 milltir
**Amser:**
tua 2 awr
**Llwybrau:**
ffyrdd B a llwybrau glaswellt

O'r man cychwyn ar y groesffordd ewch i fyny Village Road heibio'r brif ardal siopa a'r ysgol ar y dde. Ar gyffordd dilynwch y ffordd i'r dde a thros bont. Cymerwch y troad cyntaf i'r chwith ar Mill Road. Ewch ymlaen ar hyd Mill Road am 0.8 cilomedr / 0.5 milltir.

Cyn i'r ffordd droi i'r chwith i ymuno â Valley Road, trowch i'r dde rhwng dwy garej (Tan y Grisiau) i ddilyn llwybr troed i fyny grisiau serth i Terrace Walk. Trowch i'r chwith a cherddwch am 0.3 cilomedr / 0.2 milltir i droi i'r dde drwy giât mochyn wedi'i marcio Llwybr y Gogledd. Ewch yn eich blaen ar draws y cae, drwy giât i ddilyn hen drac at giât a chyfeirbwynt. Trowch i'r chwith yma (gan adael Llwybr y Gogledd). Dilynwch y ffin ar y chwith i fynd dros gamfa. Ewch yn eich blaen trwy'r cae at gamfa arall. Ewch dros y gamfa a throwch i'r dde ar drac glaswelltog. Dilynwch y trac i fyny'r darn serth hwn nes y dewch at gamfa a wal gerrig. Ewch dros y gamfa gan ddilyn llwybr / trac glaswelltog yn mynd i'r chwith. Dilynwch y trac hwn (gan gadw i'r dde wrth y fforch) am 0.1 cilomedr / 100 llath nes y dewch at gyfeirbost a chyffordd rhwng llwybrau. Gwnewch bron i dro pedol i gymryd y llwybr / trac ar eich de (cyfeirbost Llwybr y Gogledd). Ewch i lawr am 0.2 cilomedr / 220 llath gan ddilyn Llwybr y Gogledd yn ôl i Terrace Walk. Oddi yma gallwch olrhain eich camau yn ôl i ddechrau'r daith.





## **Route 4:** Garreg Fawr

**Terrain:**
town roads, some steep ascents to 364m / 1194' and descents
**Distance:**
approx 5 kilometres / 3.1 miles
**Time:**
approx 2 hours
**Paths:**
B roads and grass paths

From the starting point at the crossroads head up Village Road past the main shopping area and the school on your right. At a junction follow the road around to the right and over a bridge. Take the first left turning along Mill Road. Continue along Mill Road for 0.8 kilometres / 0.5 miles.

Just before the road turns to the left to join Valley Road turn right between two garages (Tan y Grisiau) to follow a footpath up a long steep flight of steps to Terrace Walk. Turn left and walk for 0.3 kilometres / 0.2 miles to turn right through a kissing gate marked North Wales Path (NWP). Continue across the field, through a gate to follow an old track to a gate and waymarker post. Turn left here (leaving the NWP). Follow the left boundary to go over a stile. Continue ahead through the field to another stile. Go over the stile to turn right onto a grassy track. Follow the track up this steep section until you reach a stile and stone wall. Go over the stile to pick up a path / grassy track heading off to the left. Follow this track (keeping right at a fork) for 0.1 kilometres / 100 yards until you come to a waymarker post and a junction of paths. Do a near 'U' turn to take the path /track on your right (waymarked NWP). Continue down for 0.2 kilometres / 220 yards following the NWP back to Terrace Walk. From here you will retrace your steps back to the start of the walk.

